



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Diweddariad am y brechlyn Vaccination Update



Cylchlythyr Wythnosol Weekly Newsletter

CYHOEDDIAD 46: wythnos 29/11/2021

Cynnydd Wythnosol (21-29 Tachwedd)

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi rhoi cyfanswm o 161,673 dos atgyfnerthu a 9,277 trydydd dos ers 20 Medi 2021.

Y cyfanswm o frechiadau a roddwyd ers i'r rhaglen gychwyn yw 1,072,032 sydd yn ffigwr anhygoel.

Yn dilyn y cyhoeddiad JCVI ar 29 Tachwedd:

- Cynigir pigiadau atgyfnerthu i bawb dros 18 oed
- Bydd y bwlch rhwng yr ail ddos a'r pigiad atgyfnerthu'n cael ei gwtogi a'i gyflwyno felly wedi tri mis
- Bydd plant rhwng 12 i 15 oed hefyd yn cael eu gwahodd i gymryd yr ail ddos - 12 wythnos ar ôl y dos cyntaf

Apwyntiadau

Brechlynnau Atgyfnerthu

Dylai bod pawb sydd wedi cael eu hail ddos o'r brechlyn COVID-19 ar **30 Ebrill 2021** neu cyn hynny wedi cael eu gwahodd am frechlyn atgyfnerthu. Os nad ydych wedi cael gwahoddiad am unrhyw reswm, llenwch y ffurflen ar ein gwefan. Byddwn yn gwirio eich cofnod brechu blaenorol a'ch cymhwysedd ar gyfer y dos atgyfnerthu. Os byddwch yn gymwys ar gyfer brechlyn atgyfnerthu, bydd ein tîm yn cysylltu â chi.


<https://bipab.gig.cymru/coronafeirws/brechlyn-ar-gyfer-covid-19/yn-aros-am-fanylion-eich-apwyntiad-brechiad-atgyfnerthu/>



FFIGYRAU'R BRECHLYN ATGYFNERTHU

(hyd at 10pm 29/11/2021)

80 oed a hŷn	24,360	83.6%
75-79 oed	20,371	85.8%
70-74 oed	27,732	84.6%
65-69 oed	26,234	80.4%
60-64 oed	16,642	43.9%
Eithriadol o fregus yn glinigol	6,153	41.8%
Grwpiau mewn perygl	23,623	34.4%



Cafodd Glenys a Robert eu dos atgyfnerthu yn Stadiwm Cwmbrân. Dywedodd Robert: "Rydym wir yn deall pwysigrwydd brechlynnau oherwydd pan oeddem yn ifanc, cawsom nifer o frechlynnau ac fe wnaethon nhw arbed llawer iawn o fywydau, yn union fel y Brechlyn Ffliw."

Ail Ddos i unigolion 16-17 oed



Yn dilyn canllawiau'r JCVI, mae'r Bwrdd Iechyd yn gwahodd unigolion 16-17 oed am eu hail ddos o'r brechlyn Covid-19. Bydd y rhai sy'n gymwys yn derbyn gwahoddiad drwy neges destun a/neu lythyr erbyn 18 Rhagfyr.

Cafodd Ben, sydd yn y llun ar y chwith gyda Nyrs Gaia, ei ail ddos o frechlyn Covid-19 yng Nghanolfan Brechu Casnewydd. Dywedodd Ben, "Rydw i'n cael yr ail frechlyn gan ei fod yn bwysig i'ch iechyd ac mae'n helpu i amddiffyn pawb."

PÀS COVID Y GIG

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i bobl Cymru wneud cais am BÀS COVID, a fydd yn galluogi mynediad i ddigwyddiadau a lleoliadau.

Gallwch gael eich PÀS COVID Y GIG ar-lein:
www.nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/covid-pass/

Neu ar y ffôn: **0300 303 5667**

Ffoniwch 0300 303 5667 os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach.



Chwe cham at helpu i gadw Cymru'n ddiogel:

1. Derbyniwch eich brechlynnau pan gewch eich gwahodd.
2. Ewch am brawf a hunanynyswch os oes gennych symptomau.
3. Mae'r awyr agored yn fwy diogel na thu mewn.
4. Cadwch eich pellter pan fo'n bosib.
5. Golchwch eich dwylo.
6. Gwisgwch orchudd wyneb.

BRECHU'R DOS CYNTAF – GADAEL NEB AR ÔL

Gall unrhyw un sy'n 12 oed neu'n hŷn, ac nad ydyw wedi cael ei ddos cyntaf o'r brechlyn, alw heibio un o'n clinigau brechu torfol i gael eich dos CYNTAF o'r brechlyn.

Ar gyfer lleoliadau ac oriau agor ein clinigau, ewch i
<https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/our-vaccination-centres/>
neu fffoniwch 0300 303 1373 i drefnu'ch apwyntiad.

Cyrhaeddwch yn brydlon

ar gyfer eich
apwyntiad
brechiad
Covid-19



Mae ein Gwasanaeth Brechu yn Brysur lawn

Er mwyn gallu cyflwyno'r Brechlyn Atgyfnerthu COVID-19 mor gyflym â phosib, gofynnwn i'r cyhoedd dderbyn yr apwyntiad cyntaf a roddir iddynt ac i gyrraedd ar amser.

NHS Covid Pass Information available at
<https://gov.wales/get-your-nhs-covid-pass#section-70608>
Or by calling 0300 303 5667

For further information on the Covid-19 Vaccination please visit:
<https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/>

Public Health Wales Vaccination information:
<https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-andvaccines/covid-19-vaccination-information/>